**Hysbysiad am Benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
**– Cyngor, Dydd Mercher, 27 Mawrth 2019**

| Rhif Eitem ar y Rhaglen | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **5** | Cadarnhau Cofnodion | **PENDERFYNWYD - Derbyn Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Bwrdeistref Sirol a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2019 fel cofnod cywir.** |
| **7** | Enwebiadau ar gyfer Ethol Maer a Phenodi Dirprwy Faer ar gyfer 2019/20 | **PENDERFYNWYD:**<br><br>**(i) Argymell yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor y dylid enwebu'r Cynghorydd Robert Walsh ar gyfer swydd Maer y Fwrdeistref Sirol ar gyfer 2019/20, ar yr amod ei fod yn derbyn swydd y Maer.**<br><br>**(ii) Argymell yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor y dylid enwebu'r Cynghorydd Ronnie Prince ar gyfer swydd Dirprwy Faer y Fwrdeistref Sirol ar gyfer 2019/20, ar yr amod ei fod yn derbyn swydd y Dirprwy Faer.** |
| **8** | Adolygiad Blynyddol o'r Datganiad Polisi Cyflog | **PENDERFYNWYD - Cymeradwyo Datganiad ar Bolisïau Tâl, ynghlwm fel Atodiad 1 i adroddiad HCCS/10/19, i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2019.**<br><br>**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**<br><br>Er mwyn bodloni gofynion Pennod 8 Deddf Lleoliaeth 2011, drwy sicrhau bod y Datganiad ar Bolisïau Tâl yn cael ei adolygu a'i gyhoeddi bob blwyddyn. |
| **9** | Datblygu Aelodau | **PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Rhaglen Ddatblygu Aelodau 2019/20 fel y nodir yn Atodiad 1 i adroddiad HCCS/23/19.** |

**Hysbysiad am Benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Cyngor, Dydd Mercher, 27 Mawrth 2019**

| Rhif Eitem ar y Rhaglen | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| | | **RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD**<br><br>Sicrhau fod gan y Cyngor Rhaglen Ddatblygu Aelodau ar waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod fel y bo angen gan Strategaeth Ddatblygu Aelodau'r Awdurdod. |
| **10** | Cydnabyddiaeth Aelodau - Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol | **PENDERFYNWYD**<br><br>**(i) Aelodau i nodi'r newidiadau mewn cydnabyddiaeth ariannol Aelodau yn yr Adroddiad Blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2019.**<br>**(ii) Bod Arweinydd y Cyngor yn cyflwyno sylwadau i CLILC yn unol â chyd-ymateb Awdurdod Lleol i godiad cyflog diweddar fel y pennwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.**<br><br>**RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD**<br><br>I nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol 2019. |
| **11** | Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Wrecsam | **PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Bwrdeistref Sirol Wrecsam (fel y nodir yn Atodiad 1 adroddiad HEP/24/29).** |

**Hysbysiad am Benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Cyngor, Dydd Mercher, 27 Mawrth 2019**

| Rhif Eitem ar y Rhaglen | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| | | **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**<br><br>(i) Mae yna ofyniad statudol i Awdurdodau Lleol o dan adran 60(3) a (4) Deddf Cefn Gwlad a hawliau tramwy i wneud asesiad newydd, adolygu eu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a gwneud penderfyniad ar newidiadau, dim mwy na 10 mlynedd ar ôl cyhoeddi'r cynllun blaenorol. Mae'n ofynnol yn y ddeddfwriaeth bod cymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn benderfyniad y Cyngor (Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007). |
| **12** | Adolygiad Blynyddol o'r Cyfansoddiad | **PENDERFYNWYD**<br><br>**1 Bod y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio yn y ffurf ganlynol:**<br><br>**1.1 Yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r Strwythur Uwch-Reolwr newydd a newidiadau cysylltiedig â'r cynllun dirprwyo.**<br>**1.2 Diwygio'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion i sicrhau ei fod yn gyson gyda pholisïau a gweithdrefnau presennol ac yn adlewyrchu deddfwriaeth a chanllawiau presennol fel yr amlinellir yn yr Atodiad i adroddiad HCCS/17/19.**<br>**1.3 Diweddaru Rheolau Gweithdrefn Ariannol, Rheolau Gweithdrefnau Contract a Chod Llywodraethu Corfforaethol fel yr amlinellir yn yr Atodiad i adroddiad HCCS/17/19.**<br>**1.4 Diweddariadau i gynnwys penderfyniadau i'r Bwrdd Gweithredol ers yr adolygiad diwethaf, sef:-**<br>**i. Cynnwys yr ystod lawn o bwerau o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 o fewn cylch gwaith y Prif Swyddog** |

**Hysbysiad am Benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Cyngor, Dydd Mercher, 27 Mawrth 2019**

| Rhif Eitem ar y Rhaglen | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| | | **Cynllunio a Rheoleiddio (sef Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio ar hyn o bryd);**<br>**ii. Cynnwys yr ystod lawn o bwerau sy'n angenrheidiol i alluogi'r Prif Swyddog Amgylchedd (sef Pennaeth yr Amgylchedd a Chynllunio ar hyn o bryd) i benderfynu ar geisiadau i'r Cyngor fel Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy o dan Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.**<br>**iii. Sefydlu cydbwyllgor ar gyfer Gweledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru yn unol â'r cytundeb yr ymrwymwyd iddo ar 18 Rhagfyr 2018.**<br><br>**RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD**<br><br>Sicrhau bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiweddaru i fodloni holl ofynion cyfreithiol a llywodraethu da ac yn galluogi Swyddogion i gyflawni eu swyddogaethau o fewn eu cylch gwaith. Cynnwys newidiadau a dirprwyon a awdurdodwyd ers cyfnod yr adolygiad diwethaf. |
| **13** | Calendr o Gyfarfodydd 2019/2020 | **PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r calendr blynyddol drafft arfaethedig o gyfarfodydd ar gyfer y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol, Pwyllgorau Craffu a Sefydlog yn 2017/20 gan gynnwys Gweithdai Pob Aelod a Datblygiad Aelodau (atodiad 1 adroddiad HCCS/22/19), i'w cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad.**<br><br>**RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD** |

**Hysbysiad am Benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Cyngor, Dydd Mercher, 27 Mawrth 2019**

| Rhif Eitem ar y Rhaglen | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| | | I gasglu barn aelodau am ddyddiadau ac amseroedd y cyfarfodydd arfaethedig. |